# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Trafodaeth am y cynigion i ddiwygio llywodraeth leol

Cyflwyniad

1. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol ar 31 Ionawr 2017. Eir ati yn y papur hwn i roi golwg gyffredinol ar yr ystyriaethau sy'n sail i'r Papur Gwyn ac i geisio barn aelodau'r Cyngor am sut y maent am gyfrannu at y gwaith o lunio'r cynigion terfynol.

Datblygu cynigion i ddiwygio llywodraeth leol

2. Diben diwygio yw creu llywodraeth leol fwy cydnerth a helpu i'w hadnewyddu. Mae gan lywodraeth leol rôl allweddol i'w chwarae o ran creu Cymru ffyniannus a diogel, ac er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni'r gwaith hwnnw, mae angen inni:

   - fynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n parhau i wynebu awdurdodau lleol, a'u gwneud yn fwy cydnerth er mwyn iddynt fedru rheoli'r heriau a fydd yn dod i'w rhan yn y dyfodol
   - helpu i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion a galluogi'r awdurdodau i wella lleoedd
   - sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu ar y raddfa briodol, a chyfundrefnu a symleiddio'r trefniadau presennol
   - gwerthfawrogi'r gweithlu ym maes llywodraeth leol a rhoi cyfleoedd iddynt, fel rhan o wasanaeth cyhoeddus ehangach
   - creu model lle bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu mewn ffordd ddarbodus, ac a fydd hefyd yn ailddiffinio rôl gwasanaethau a'r berthynas rhyngddynt a dinasyddion

3. Ymgynghorwyd yn eang am gynigion Llywodraeth flaenorol Cymru ar uno awdurdodau lleol ac aed ati hefyd, cyn y broses ddeddfu, i graffu ar Fil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) ("y Bil Drafft"), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015. Fodd bynnag, nid oedd digon o gefnogaeth o fewn llywodraeth leol nac o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r cynigion i uno awdurdodau ac o'r herwydd, nid oedd modd bwrw ymlaen â nhw.

4. Ar ôl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ag arweinydd pob awdurdod lleol a chyda rhanddeiliaid eraill yn ystod yr haf er mwyn dechrau datblygu ffordd arall o fwrw ymlaen i ddiwygio llywodraeth leol.

5. Ar 4 Hydref 2016, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Llafar, a oedd yn deillio o'r trafodaethau hynny, ar Ddiwygio Llywodraeth Leol – http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/lgreformupdate/?skip=1&lang=cy. Dyma grynodeb o'r cynigion a oedd i'w profi a'u pwyso a'u mesur ymhellach dros yr hydref:

- byddai'r 22 o awdurdodau lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn parhau, heblaw am y rheini a fyddai am uno'n wirfoddol, a’r awdurdodau hynny fyddai'r haen ddemocrataidd lle byddai cynghorwyr yn cael eu hethol a'r pwynt cyswllt cyntaf i ddinasyddion gael gafael ar wasanaethau
- byddai Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i'r awdurdodau hynny a fyddai am uno'n wirfoddol
- byddai llawer mwy o weithio ar y lefel rhanbarthol, a byddai'n 'systematig;' ac yn orfodol'. Yr hyn a olygir wrth 'systematig' yw y byddai gwasanaethau'n cael eu trefnu yn ôl yr un model;  a byddai 'gorfodol' yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn pennu pa wasanaethau a swyddogaethau a fyddai'n cael eu darparu a'u cyflawni ar ba lefel
- mae'n bosibl y byddai'r model systematig hwn yn ddau fodel gwahanol mewn gwirionedd: un yn seiliedig ar y Dinas-ranbarthau a fyddai'n cwmpasu trafnidiaeth strategol, cynllunio defnydd tir a datblygu economaidd, a'r llall, ar sail y Byrddau Iechyd yn fwy na thebyg, ar gyfer meysydd fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac amddiffyn y cyhoedd
- datblygu rhagor o wasanaethau a rennir

6. Ers y cyhoeddiad hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n profi a mireinio'r cynigion sydd wedi dod i'r amlwg. Mae'r gwaith hwnnw wedi cynnwys rhagor o waith ar bwyso a mesur y posibiliadau ac ar ddatblygu polisi, ac mae wedi mynd ati hefyd i gysylltu ac i drafod yn helaeth gyda llywodraeth leol a phartneriaid ehangach. Canolbwyntiwyd ar bum cwestiwn allweddol yn ystod y trafodaethau hynny:

   - Pa swyddogaethau a ddylai gael eu cyflawni ar lefel ranbarthol?
   - Ar sail pa fodel(au) y dylid cyflawni'r swyddogaethau hynny?
   - Pa drefniadau llywodraethu sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r trefniadau rhanbarthol?
   - Sut y dylid darparu cyllid ar gyfer gweithredu ar y lefel ranbarthol?
   - Sut y dylid sicrhau atebolrwydd a thryloywder ar gyfer y dinesydd?

7. Wrth feddwl am y cwestiynau hyn ac am oblygiadau’r cynigion i ddiwygio llywodraeth leol, rydym yn cydnabod bod swyddi yn y sector cyhoeddus o werth economaidd i gymunedau. Rydym wedi mynd ati'n benodol yn ein trafodaethau i ystyried y posibilrwydd y bydd crynhoi gwasanaethau mewn llai o leoliadau yn arwain at newidiadau o ran cyflogaeth ac rydym yn glir y byddai angen i unrhyw newidiadau o'r fath gyd-fynd â pholisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar faterion o'r fath.

8. Mae'r broses gysylltu a thrafod wedi dangos bod datblygu economaidd yn faes lle mae cryn gefnogaeth i weithio rhanbarthol gan yr awdurdodau lleol. Mae hynny’n adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol y cydweithio sy'n digwydd eisoes ledled Cymru, er enghraifft, yn y Dinas-ranbarthau, ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Phartneriaeth y Canolbarth, sy'n prysur dyfu.

9. Ar sail ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid ac ar ôl gwneud rhagor o waith polisi, datblygwyd set fwy datblygedig o gynigion. Bwriedir ymgynghori am y cynigion hynny mewn Papur Gwyn o 31 Ionawr 2017 ymlaen.

Pwyntiau i'w trafod

10. Pwyntiau i'w trafod:

- Beth yw'ch blaenoriaethau chi ar gyfer diwygio llywodraeth leol?
- A oes yna bethau a fyddai'n gwella gallu'r awdurdodau lleol i gefnogi datblygu economaidd?
- Sut rydych chi am gyfrannu at y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu cynlluniau i ddiwygio llywodraeth leol?